# Telerau ac Amodau

1. Mae'r Bwrsariaethau Cymorth wedi'i Dargedu yn gynnig ariannol o £1000 ar gyfer pob blwyddyn astudiaeth academaidd. Mae'n rhaid i fyfyriwr fynd ymlaen i'w lefel nesaf o astudiaeth i barhau i dderbyn y fwrsariaeth. Os yw'r myfyriwr yn ail-sefyll blwyddyn astudio, ni fydd yn derbyn y fwrsariaeth ond bydd yn cael ei hadfer unwaith y byddant wedi symud ymlaen i'r lefel nesaf.
2. Mae'r Brifysgol yn cynnig 12 gwobr bwrsariaeth newydd ar gyfer pob pecyn cymorth wedi'i dargedu a dyfernir y rhain ar sail y cyntaf i'r felin.
3. Rhaid i fyfyriwr gyflwyno'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a thystiolaeth addas cyn y gellir dyfarnu bwrsariaeth. Os nad yw myfyriwr yn ymateb i geisiadau am dystiolaeth yna ni fydd ei gais yn cael ei ystyried.
4. Mae'r bwrsariaethau cymorth wedi'u targedu ar gael i fyfyrwyr cartref, sy'n astudio ar raglen israddedig amser llawn ym Mhrifysgol Wrecsam yn unig. Nid yw myfyrwyr mewn sefydliadau partner yn gymwys i dderbyn bwrsariaethau cymorth wedi'i dargedu.
5. Bydd gofyn i fyfyrwyr sy'n symud ymlaen i'w blwyddyn astudio nesaf gael 'sesiwn wirio' gyda Bywyd Myfyrwyr a Champws i gadarnhau eu bod yn gymwys ar gyfer dyfarnu'r taliad nesaf.
6. Gellir dod o hyd i ddiffiniadau a meini prawf cymhwysedd ar gyfer pob bwrsariaeth cymorth wedi'i dargedu **yma**.
7. Ni ellir hawlio dyfarniadau yn ôl-weithredol ar gyfer blynyddoedd academaidd blaenorol.
8. Ni fydd ad-dalu'r dyfarniad yn ofynnol yn achos methiant academaidd.
9. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i derfynu dyfarniad yn achos camau disgyblu a gymerir yn erbyn myfyriwr. Bydd hyn yn cael ei ystyried ar sail unigol ac yn cael ei gyfathrebu i'r myfyriwr.
10. Rhaid i fyfyrwyr gael cyllid yn ei le i dalu am eu ffioedd dysgu cyn y bydd bwrsariaeth yn cael ei dyfarnu.
11. Os oes gan fyfyriwr ddyled ffioedd dysgu neu ffioedd llety gyda Phrifysgol Wrecsam yna bydd y fwrsariaeth yn cael ei hatal nes bod y ffi hon wedi'i thalu.
12. Rhaid i fyfyrwyr gyfarfod â'r Cydlynydd Llesiant Myfyrwyr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i dderbyn eu taliad bwrsariaeth cyntaf. Gall methu a gwneud hyn arwain at beidio â dyfarnu'r fwrsariaeth. Bydd hyn yn cael ei gyfathrebu i'r myfyriwr.
13. Mae Prifysgol Wrecsam yn cadw'r hawl i ofyn am ragor o wybodaeth neu dystiolaeth mewn perthynas â chais myfyriwr.
14. Telir y fwrsariaeth mewn dau daliad arian parod bob blwyddyn academaidd. Bydd hwn yn cael ei dalu i'r cyfrif banc a roddir yn ffurflen gais y myfyriwr. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw cadarnhau bod y manylion hyn yn gywir.
15. Bydd Bywyd Myfyrwyr a Champws yn hysbysu Pentref Myfyrwyr Wrecsam am unrhyw fyfyrwyr sy'n byw mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol ac felly'n gymwys i dderbyn y gostyngiad llety. Cynigir hyn ar sail y cyntaf i'r felin a bydd yn cael ei gyfleu i'r myfyriwr wedi iddo gyflwyno cais.
16. Ni all myfyrwyr dderbyn mwy nag un bwrsari cymorth wedi'i dargedu.
17. Os bydd myfyriwr yn gohirio ei astudiaethau, ni fydd taliadau bwrsariaeth yn cael eu talu yn ystod y gohiriad. Unwaith y bydd myfyriwr yn dychwelyd i'w astudiaethau, bydd y taliadau bwrsariaeth yn ailddechrau.
18. Mae gan y Brifysgol yr hawl i wirio presenoldeb myfyriwr sy'n derbyn bwrsari cymorth wedi'i dargedu ac i atal unrhyw daliadau bwrsari os oes pryderon ynghylch ymgysylltiad myfyriwr â'i astudiaethau.
19. Nid yw myfyrwyr rhan-amser, myfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr dysgu o bell, myfyrwyr ar-lein Prifysgol Wrecsam, myfyrwyr ôl-raddedig a'r rhai sydd ar brentisiaeth gradd yn gymwys i gael bwrsariaeth cymorth wedi'i dargedu.
20. Os bydd myfyriwr yn newid ei astudiaethau, er enghraifft newid cwrs neu newid dull astudio o amser llawn i ran-amser, yna bydd hyn yn effeithio ar ei gymhwysedd i dderbyn y cymorth ariannol.
21. Y myfyriwr sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau neu eu hastudiaethau a allai effeithio ar eu cymhwysedd ar gyfer y fwrsariaeth.

Chwefror 2026